

Cyfarwyddyd cyfrifon i golegau addysg bellach yng Nghymru ar gyfer 2024/25

Dyddiad: 31 Gorffennaf 2025

Cyfeirnod: Medr/2025/05

At: Benaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru
Prif swyddogion cyllid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru

Ymateber erbyn: 31 Rhagfyr 2025

Rhagor o wybodaeth: sicrwydd@medr.cymru

Crynodeb

Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu gwybodaeth am ofynion Medr ar gyfer fformat datganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

Cynnwys

Cynnwys.....	1
1. Cyflwyniad.....	2
1.1 Cyfarwyddyd cyfrifon.....	2
1.2 Cefndir	2
1.3 Diweddariadau ers y fersiwn flaenorol	2
2. Cyfarwyddyd cyfrifon	3
2.1 Perthnasedd	3
2.2 Datganiad o'r arfer a argymhellir	3
2.3 Llawlyfr cyfarwyddyd cyfrifon i golegau	3
2.4 Deddf Elusennau 2011.....	4
2.5 Canllawiau penodol pellach	5
2.6 Archwilio allanol	5
2.7 Amserlen y cyfrifon	5
2.8 Anawsterau ariannol	6
2.9 Rhagor o wybodaeth.....	6
Atodiad A: Datganiad o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol	7
Atodiad B: Datganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfio	9
Atodiad C: Datganiad o gyfrifoldebau aelodau'r corff llywodraethu	11
Atodiad D: Materion cyfrifyddu a datgelu penodol.....	13
i) Statws cyfreithiol	13
ii) Budd cyhoeddus	13
iii) Cynlluniau ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol / polisi cronfeydd wrth gefn	13
iv) Niferoedd a chostau staff	13
v) Cydnabyddiaeth ariannol personél rheoli allweddol a staff y telir cyflog uchel iddynt	13
vi) Iawndal am golli swydd	16
vii) Trafodiadau gyda llywodraethwyr / ymddiriedolwyr	17
viii) Trafodiadau partïon cysylltiedig.....	18
ix) Cyfrifyddu ar gyfer grantiau'r Llywodraeth.....	18
x) Incwm consortiwm	18
xi) Adolygiad ariannol y coleg	19
xii) Datgeliadau mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	20
xiii) Adrodd amgylcheddol	21
xiv) Y gronfa ariannol wrth gefn	21

1. Cyflwyniad

1.1 Cyfarwyddyd cyfrifon

Mae'r cyfarwyddyd cyfrifon hwn yn hysbysu colegau ynghylch gofynion Medr o ran fformat eu datganiadau ariannol archwiledig ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

Defnyddiwn y term "coleg" i gyfeirio at gorfforaethau addysg bellach a cholegau chweched dosbarth, a sefydlwyd dan ddarpariaethau [Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992](#).

Mae Medr yn cyhoeddi'r cyfarwyddyd cyfrifon ar ran Llywodraeth Cymru, sef prif reoleiddiwr colegau addysg bellach Cymru fel elusennau eithriedig. Mae cydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyfrifon hwn yn un o'r gofynion ar gyfer telerau cyllid colegau gyda Medr a chyllidwyr cyhoeddus eraill.

Mae colegau yng Nghymru'n dal i fod yn ddarostyngedig i [Femorandwm Ariannol](#) Llywodraeth Cymru nes daw fframwaith rheoleiddio Medr ei hun i rym.

Tybir bod cyfeiriadau at Medr yn cyfeirio at y cydgyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru trwy Medr.

Mae'r cyfarwyddyd cyfrifon hwn wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio'n bennaf gan:

- a) penaeithiaid, prif weithredwyr / swyddogion cyfrifyddu, a chyfarwyddwyr cyllid
- b) llywodraethwyr
- c) archwilwyr allanol / cyfrifwyr adrodd

1.2 Cefndir

Mae paragraff 36 y [Memorandwm Ariannol](#) rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015 (dogfen ganllaw rhif: 160/2015), yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Medr. Bydd y cyfarwyddyd yn cwmpasu gwybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiadau ariannol, y modd y dylid eu cyflwyno, y dulliau a'r egwyddorion y cânt eu paratoi yn unol â hwy, ac y byddant yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU a'r [Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019](#) ('SORP AB ac AU').

Wrth gyhoeddi'r cyfarwyddyd hwn mae Medr yn dymuno sicrhau bod y ffurf, cynnwys a datgeliadau yn natganiadau ariannol sefydliadau'n dilyn arfer da, eu bod yn gyson ar draws y sector ac yn ateb unrhyw ofynion penodol gan Lywodraeth Cymru.

1.3 Diweddariadau ers y fersiwn flaenorol

Fe wnaed y newidiadau canlynol i'r ddogfen hon ers y fersiwn derfynol ar gyfer 2023/24:

- a) Mân newidiadau o ran naratif / teipograffeg a dolenni rhyngrwyd wedi'u diweddarau
- b) Mae cyfeiriadau a dolenni wedi cael eu diweddarau o Lywodraeth Cymru i Medr fel y bo'n briodol;

- c) Disodli 'yn bennaf ar gyfer' â 'i gael ei ddefnyddio'n bennaf gan' (para 1.1)
- d) Egluro natur eilaidd gofynion y SORP Elusennau (para 2.4)
- e) Rhestr o ganllawiau penodol wedi'i thynnu allan gan ei bod yn y cynnwys (para 2.5).
- f) Gofynion cyhoeddi (para 2.4) wedi'u tynnu allan gan bod y rhain wedi'u cynnwys ym mhara 2.7;
- g) Pwysleisio'r gofyniad i hysbysu Medr lle mae unrhyw anawsterau ariannol yn cael eu profi, beth bynnag fo unrhyw effaith ar gwrdd â therfynau amser ar gyfer cyflwyno (para 2.8);
- h) Bellach mae'r datganiad o gyfrifoldebau aelodau'r corff llywodraethu'n datgan 'Ar ran y coleg, cadeirydd y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am drafod datganiad y swyddog cyfrifyddu o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfio gyda'r swyddog cyfrifyddu.'. ([Atodiad C](#));
- i) Tynnu allan gasgliad niferoedd staff Llywodraeth Cymru ar sail niferoedd cyfwerth ag amser llawn trwy'r cofnod cyllid neu gofnod cyfwerth ([Atodiad D, nodyn iv](#));
- j) Diffiniad o daliadau diswyddo ([Atodiad D, nodyn vi](#))
- k) Tynnu allan y cyfrifoldeb i gydymffurfio â Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 (Atodiad D)
- l) Mae cyfeiriad at Ddogfen Hysbysu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a dolen iddi wedi cael eu cynnwys ([Atodiad D, nodyn xii](#))
- m) Ychwanegu dolen i ganllawiau ESFA ar gyfer colegau ar adroddiadau wedi'u symleiddio ar ynni a charbon ([Atodiad D, nodyn xiii](#))
- n) Ychwanegu gofyniad i ddatgelu mewn perthynas â'r gronfa ariannol wrth gefn (Atodiad D, nodyn xv)

2. Cyfarwyddyd cyfrifon

2.1 Perthnasedd

Mae'r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac maent yn berthnasol i'r holl gyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024. Byddant yn dal i fod mewn grym hyd oni chânt eu disodli.

2.2 Datganiad o'r arfer a argymhellir

Wrth baratoi eu datganiadau ariannol, mae Medr yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl sefydliadau gydymffurfio ag [FRS 102: y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon](#) ('FRS 102') a'r [SORP AB ac AU](#).

2.3 Llawlyfr cyfarwyddyd cyfrifon i golegau

Ceir canllawiau pellach yn y [Llawlyfr Cyfarwyddyd Cyfrifon i Golegau](#) a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Colegau. Sylwer bod hwn yn cynnwys cyfeiriadau penodol at gyrff cyllido yn Lloegr a chanllawiau ar gyfer Lloegr a ddylai gael eu disodli gan yr hyn sy'n cyfateb

iddynt yng Nghymru. Mae set enghreifftiol o ddatganiadau ariannol – Coleg Casterbridge – wedi cael ei chynhyrchu fel rhan o'r llawlyfr.

Yn ogystal â gofynion y [SORP AB ac AU](#), mae Medr yn ei gwneud yn ofynnol paratoi datganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau yn unol ag Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU.

Yn achos sefydliad sydd hefyd yn gwmni cyfyngedig trwy warant, mae'r cyfarwyddyd hwn yn ddarostyngedig i ofynion ychwanegol Deddf Cwmnïau 2006.

Lle mae gan sefydliad is-gwmnïau sy'n gwmnïau cyfyngedig, byddant hwythau'n ddarostyngedig i Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae hefyd yn ofynnol i sefydliadau gynnwys y canlynol yn eu datganiadau ariannol:

- a) adroddiad strategol (gellir ei alw hefyd yn adroddiad y trysorydd, adroddiad yr aelodau, adroddiad y cyfarwyddwyr, adroddiad y corff llywodraethu neu adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr);
- b) datganiad sy'n cwmpasu cyfrifoldebau eu corff llywodraethu mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol. Mae'r datganiad hwn, sy'n cynnwys datganiad ar reolaeth fewnol, yn ofynnol i ddynodi sut y mae'r sefydliad wedi cydymffurfio ag arfer gorau cyfredol yn y maes hwn, ac fe geir enghraifft yn [Atodiad A](#). Cyhoeddwyd y [Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru](#) gan Colegau Cymru ym mis Ionawr 2016;
- c) datganiad o gyfrifoldebau'r corff llywodraethu, y ceir enghraifft ohono yn [Atodiad C](#);
- d) adroddiad archwilydd annibynnol.

2.4 Deddf Elusennau 2011

Rhaid i sefydliadau Cymru ateb gofynion [Deddf Elusennau 2011](#). Dylent hefyd roi sylw i ofynion ychwanegol y [Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau](#) (SORP Elusennau). Fodd bynnag, gan bod gan y sector AB faterion ariannol ac adrodd arbennig sy'n wahanol i sefydliadau eraill â statws elusennol, mae'r [SORP AB ac AU](#) yn cael blaenoriaeth dros y SORP Elusennau.

Rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn natganiadau ariannol archwiliedig ac adroddiadau cysylltiedig y coleg:

- a) statws cyfreithiol y coleg;
- b) yr ymddiriedolwyr a wasanaethodd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a than y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo'n ffurfiol;
- c) datganiad bod y coleg wedi rhoi sylw dyladwy i ganllawiau'r Comisiwn Elusennol ynghylch budd cyhoeddus (os yw'r coleg yn elusen);
- d) adroddiad ar sut y mae'r coleg wedi cyflawni ei ddibenion elusennol er budd cyhoeddus;
- e) gwybodaeth am daliadau i ymddiriedolwyr neu ar eu rhan, gan gynnwys: treuliau, taliadau i ymddiriedolwyr am wasanaethu fel ymddiriedolwyr (a

hepgoriadau mewn perthynas â thaliadau o'r fath), ac unrhyw drafodiadau partïon cysylltiedig sy'n cynnwys ymddiriedolwyr. Dylai hyn fod, fel lleiafswm, yn gyfanswm taliadau o'r fath a wnaed yn y flwyddyn (neu, os na wnaed unrhyw rai, yn ddatganiad i'r perwyl hwnnw) a nifer yr ymddiriedolwyr a gafodd y taliadau. Dylid cynnwys ffigyrau cymharol hefyd.

2.5 Canllawiau penodol pellach

Mae canllawiau ychwanegol wedi'u cynnwys yn [Atodiad D](#).

2.6 Archwilio allanol

Mae'n ofynnol i sefydliadau sicrhau bod eu contractau ar gyfer archwilio allanol yn gwneud darpariaeth ar gyfer barn pa un a yw'r sefydliad wedi cymhwyso incwm, lle y bo'n briodol, yn unol â'r [Memorandwm Ariannol](#), a pha un a yw grantiau Medr a chyllid cyhoeddus arall wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u cafwyd ar eu cyfer.

Dylai sefydliadau fod yn ymwybodol y bydd eu harchwilwyr allanol yn adolygu'r datganiad o lywodraethu corfforaethol a rheolaethau mewnol fel rhan o'u gwaith archwilio ac y byddant yn cynnwys cyfeiriad at y gwaith hwn yn eu barn archwilio.

Rheolir ffurf yr adroddiad archwilio gan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (yn y DU) (ISAs). Y safon benodol yw 'ISA 700: Ffurio Barn ac Adrodd ar Ddatganiadau Ariannol'.

Dylid rhoi copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon hwn a'r [Memorandwm Ariannol](#) i'r archwilwyr allanol.

Atgoffir archwilwyr allanol, lle nad ydynt yn gallu mynegi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y sefydliad, y dylent gyfleu hyn ar unwaith i'r Pennaeth, Cadeirydd y Coleg a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Dylent hefyd hysbysu Medr.

Ni all cwmnïau archwilio gael eu penodi'n archwilwyr mewnol ac allanol ar yr un pryd nac ar gyfer yr un flwyddyn ariannol dan unrhyw amgylchiadau.

Yn unol â'r [Memorandwm Ariannol](#) a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, rhaid i'r holl golegau drefnu bod eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon statudol ar gael yn brydlon ar eu gwefannau. Gall hyn olygu bod gofyn cael datganiad ychwanegol gan archwilwyr allanol. Gall yr archwilwyr ei gwneud yn ofynnol cynnwys datganiad ychwanegol yng nghyfrifoldebau'r corff llywodraethu mewn perthynas â'r wefan hefyd os yw'r farn archwilio'n mynd i gael ei chyhoeddi.

2.7 Amserlen y cyfrifon

Mae paragraff 35 y [Memorandwm Ariannol](#) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu copi wedi'i lofnodi ar gyfer Medr o'u datganiadau ariannol yn ddim hwyrach na **31 Rhagfyr** bob blwyddyn. Mae Medr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno llythyr rheoli'r archwilydd allanol, gan gynnwys ymateb y sefydliad, yr un pryd. Dylai colegau gyflwyno eu ffurflen Cofnod Cyllid erbyn yr un dyddiad hefyd.

Sylwer y gellir cyflwyno'r dogfennau hyn yn electronig.

Yn unol â'r [Memorandwm Ariannol](#), rhaid i sefydliadau drefnu bod eu hadroddiadau blynyddol a chyfrifon ar gael yn gyhoeddus, a dylent eu cyhoeddi ar eu gwefannau erbyn **31 Ionawr** yn dilyn diwedd y cyfnod.

2.8 Anawsterau ariannol

Atgoffir colegau, os ydynt yn profi anawsterau ariannol neu achosion o dorri cyfamodau banc a allai effeithio ar allu'r coleg i barhau fel busnes gweithredol ac felly allu'r archwylwyr allanol i gwblhau eu gwaith yn y maes hwn, y dylai'r coleg hysbysu Medr cyn gynted ag y cyfyd unrhyw sefyllfa o'r fath. Rhaid gwneud hyn ni waeth a oes risg o beidio â chwrdd â'r terfyn amser cyflwyno ai peidio.

2.9 Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at Diane Rowland (sicrwydd@medr.cymru).

Atodiad A: Datganiad o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol

Mae llywodraethu corfforaethol da'n hanfodol i unrhyw sefydliad effeithiol a dyma ddilysnod endid a reolir yn dda, ac i golegau mae'n dangos eu bod yn cynnal busnes er budd pennaf eu myfyrwyr ac yn unol â'u gofyniad cyllid. Rhaid i golegau yng Nghymru gydymffurfio ag un o'r codau llywodraethu canlynol:

- a) [Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru](#), a gyhoeddwyd gan Colegau Cymru yn 2016 i gefnogi arfer llywodraethu, gan sicrhau gwarchodaeth ffyddlon ar arian cyhoeddus, ac i sicrhau budd pennaf myfyrwyr.
- b) [Cod Llywodraethu Elusennau](#) (os yn berthnasol).
- c) Cymeradwyr [Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018](#) gan y Comisiwn Elusennau. Ni ddisgwylir i golegau sy'n mabwysiadu'r cod hwn gydymffurfio â'r gofynion hynny nad ydynt yn berthnasol i addysg bellach a cholegau chweched dosbarth. Fodd bynnag, dylent roi sylw dyladwy i'r egwyddorion a'r canllawiau hyd y bônt yn berthnasol i'r sectorau addysg bellach ac elusennau.

Rhaid i golegau fabwysiadu cod llywodraethu sy'n adlewyrchu eu strwythur cyfreithiol a'u gweithrediadau hwy orau.

Rhaid i golegau gynnwys datganiad o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol yn eu hadroddiadau blynyddol a chyfrifon, sy'n cwmpasu'r amser rhwng dechrau'r cyfnod ariannol a dyddiad llofnodi'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol hwnnw, y mae'n rhaid iddo gynnwys:

- a) datganiad o gydymffurfio â'r cod llywodraethu a fabwysiadwyd ganddynt gydag esboniadau am unrhyw wyriadau, neu
- b) os nad ydynt wedi'i fabwysiadu, datganiad i'r perwyl, 'er nad yw wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 mae'r coleg yn rhoi sylw dyladwy i'w egwyddorion a chanllawiau'
- c) manylion y rhai a wasanaethodd fel aelodau'r corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn gan gynnwys cofnod o bresenoldeb mewn cyfarfodydd
- d) nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan y pwyllgor archwilio yn ystod y flwyddyn a chofnodion presenoldeb ar gyfer pob aelod o'r pwyllgor
- e) y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys:
 - o strwythur pwyllgorau
 - o y broses ar gyfer gwneud penodiadau i'r coleg
 - o cwmpas gwaith y coleg yn ystod y cyfnod
- f) sut y mae'r coleg yn adnabod, yn gwerthuso ac yn rheoli risg (gan gynnwys gwerthusiad o effaith a thebygolrwydd risgiau gweithredol allweddol, risgiau ariannol allweddol, risgiau allweddol o ran cydymffurfio a risgiau eraill allweddol)
- g) unrhyw wendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol neu fethiannau arwyddocaol sydd wedi codi, a chamau gweithredu a gymerwyd
- h) y fframwaith rheolaeth fewnol a sicrwydd a sut y mae'r coleg wedi cydymffurfio â'r canlynol:

- ei gyfrifoldeb statudol am 'ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, solfedd y sefydliad a'r corff corfforaethol a diogelu eu hasedau' (fel sy'n ofynnol gan Adran 5(3)(c) Atodlen 4 [Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992](#)).
- ei gyfrifoldebau cytundebol dan ei gytundebau a chontractau cyllido gyda Medr
- i) manylion perfformiad y coleg, gan gynnwys asesiad o'i effeithiolrwydd ei hun
- j) datganiad gan y pwyllgor archwilio sy'n tynnu ar y gwaith a nodir yn ei adroddiad blynyddol a, lle y bo'n briodol, ar waith archwilio mewnol. Dylai hyn gynnwys datganiad ar effeithiolrwydd fframwaith rheolaeth fewnol y coleg
- k) manylion unrhyw weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn i ddatblygu llywodraethwyr a chlercod/penaethiaid llywodraethu
- l) asesiad sy'n nodi a yw'r coleg yn fusnes gweithredol, a yw hyn yn golygu ei bod yn briodol mabwysiadu'r dybiaeth ynglŷn â busnes gweithredol, ac unrhyw dybiaethau ategol, amodiadau a chamau lliniaru, fel y bo'n briodol (y mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â datgeliadau eraill yn y cyfrifon ac adroddiad yr archwilydd)

Dylai'r datganiad o lywodraethu a rheolaeth fewnol gwmpasu'r cyfnod ariannol, yn ogystal ag unrhyw faterion hyd at a chan gynnwys y dyddiad y cymeradwywyd y cyfrifon.

Atodiad B: Datganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfio

Mae colegau'n cael cyllid cyhoeddus sylweddol a rhaid iddynt allu sicrhau Medr, sydd yn ei dro'n sicrhau Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd, ynghylch safonau priodoldeb uchel o ran rheoli'r arian hwnnw. Darperir y sicrwydd hwn yn bennaf trwy'r swyddog cyfrifyddu, sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb personol am y materion hyn, sy'n bodoli'n annibynnol ar unrhyw gyfrifoldeb sydd ganddynt fel rhan o'r bwrdd neu'r tîm rheoli gweithredol. Rhaid i'r swyddog cyfrifyddu lofnodi datganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfio bob blwyddyn a chyflwyno hwn gyda'r cyfrifon. Rhaid i gynnwys y datganiad gael ei drafod gyda'r bwrdd, a rhaid i gadeirydd y llywodraethwyr lofnodi'r datganiad hefyd i dystio i'r ffaith hon.

Rhaid paratoi'r datganiad yn y fformat canlynol:

Datganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfio

Fel swyddog cyfrifyddu *ENW'R COLEG*, yr wyf yn cadarnhau bod y coleg wedi rhoi sylw dyladwy i ofynion cytundebau a chontractau cyllid grant gyda Medr, a'i fod wedi ystyried ei gyfrifoldeb i hysbysu Medr ynghylch afreoleidd-dra perthnasol, amhriodoldeb perthnasol a diffyg cydymffurfio perthnasol â thelerau ac amodau cyllid.

Yr wyf yn cadarnhau ar ran y coleg, ar ôl ymholiadau dyladwy, a hyd eithaf fy ngwybodaeth, fy mod yn gallu adnabod unrhyw ddefnydd afreolaidd neu amhriodol perthnasol o arian gan y coleg, neu ddiffyg cydymffurfio perthnasol â thelerau ac amodau cyllid, dan gytundebau a chontractau cyllid grant y coleg gyda Medr, neu unrhyw gyllidwr cyhoeddus arall.

[**Naill ai:**] Yr wyf yn cadarnhau nad oes unrhyw achosion o afreoleidd-dra perthnasol, amhriodoldeb perthnasol na diffyg cydymffurfio perthnasol â thelerau ac amodau cyllid wedi cael eu darganfod hyd yma. Os adnabyddir unrhyw achosion ar ôl dyddiad y datganiad hwn, bydd y rhain yn cael eu gwneud yn hysbys i Medr.

[**Neu:**] Yr wyf yn cadarnhau bod yr achosion canlynol o afreoleidd-dra perthnasol, amhriodoldeb perthnasol neu ddiffyg cydymffurfio perthnasol â thelerau ac amodau cyllid wedi cael eu darganfod a'u gwneud yn hysbys i Medr. Os adnabyddir unrhyw achosion ar ôl dyddiad y datganiad hwn, bydd y rhain yn cael eu gwneud yn hysbys i Medr:

- [achosion i'w codi]

[**Llofnod**]

[**Enw i'w deipio**]

Swyddog cyfrifyddu

[**Dyddiad**]

Datganiad cadeirydd y llywodraethwyr

Ar ran y coleg, yr wyf yn cadarnhau bod y swyddog cyfrifyddu wedi trafod eu datganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfio gyda'r bwrdd a'm bod innau'n fodlon ei fod yn berthnasol gywir.

[**Llofnod**]

[**Enw i'w deipio**]

Cadeirydd y llywodraethwyr

[**Dyddiad**]

Atodiad C: Datganiad o gyfrifoldebau aelodau'r corff llywodraethu

Rhaid i gadeirydd y llywodraethwyr lofnodi datganiad o gyfrifoldebau aelodau'r corff llywodraethu bob blwyddyn ar ran y coleg a chyflwyno hwn gyda'r cyfrifon.

Dylid diwygio'r datganiad enghreifftiol isod fel y bo angen ar gyfer amgylchiadau penodol y coleg.

Datganiad o gyfrifoldebau aelodau'r corff llywodraethu

Mae'n ofynnol i aelodau'r corff llywodraethu gyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O fewn telerau ac amodau'r [Memorandwm Ariannol](#) rhwng Llywodraeth Cymru / Medr a chorff llywodraethu'r coleg, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu, trwy ei swyddog cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ac adolygiad gweithredu ac ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r *Datganiad o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Golegau Addysg Bellach yng Nghymru* ([SORP AB ac AU](#)) a'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU, ac sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r coleg a'i waged/diffyg incwm dros wariant ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol yn y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol;
- asesu a yw'r coleg yn fusnes gweithredol, gan nodi'r tybiaethau ategol allweddol, amodiadau neu gamau lliniaru, fel y bo'n briodol (y mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â datgeliadau eraill yn y cyfrifon ac adroddiad yr archwilydd); a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar y sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y coleg yn parhau i fod yn weithredol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r corff llywodraethu baratoi adroddiad aelodau yn unol â pharagraffau 3.23 i 3.27 y [SORP AB ac AU](#), sy'n disgrifio'r hyn y mae'n ceisio ei wneud a sut y mae'n mynd o'i chwmpas hi, gan gynnwys gwybodaeth am statws cyfreithiol a gweinyddol y coleg.

Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y coleg ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys [Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992](#) a [Deddf Elusennau 2011](#), a safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu ei asedau ac i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ac uniondeb ei wefan(nau); nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig ar gyfer paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Aelodau o'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Medr a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Hefyd, hwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod arian gan Medr, ac unrhyw arian arall, yn cael ei ddefnyddio dim ond yn unol â'r [Memorandwm Ariannol](#) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw amodau eraill a all gael eu rhagnodi o bryd i'w gilydd gan Medr neu unrhyw gyllidwr cyhoeddus arall. Ar ran y coleg, cadeirydd y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am drafod datganiad y swyddog cyfrifyddu o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfio gyda'r swyddog cyfrifyddu.

Rhaid i aelodau sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol yn eu lle i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian arall a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Hefyd, mae aelodau'r corff llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau a gwariant y coleg yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol fel nad oes risg i'r manteision a allai ddeillio o gymhwyso arian cyhoeddus gan Medr a chyrff cyhoeddus eraill.

Cymeradwywyd ar orchymyn aelodau'r corff llywodraethu ar **[dyddiad]** a llofnodwyd ar ei ran gan:

[Llofnod]

[Enw i'w deipio]

Cadeirydd y llywodraethwyr

Atodiad D: Materion cyfrifyddu a datgelu penodol

Rydym yn tynnu sylw colegau at nifer o faterion cyfrifyddu a datgelu penodol yr ystyrir eu bod yn mynd y tu hwnt i ofynion [FRS 102](#) a'r [SORP AB ac AU](#).

i) Statws cyfreithiol

Rhaid i'r coleg gynnwys manylion ei statws cyfreithiol ac elusennol.

ii) Budd cyhoeddus

Os yw'n elusen, rhaid i'r coleg ddarparu datganiad ei fod wedi rhoi sylw dyladwy i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau '[Dibenion elusennol a budd cyhoeddus](#)'. Rhaid iddo hefyd ddarparu adroddiad ar sut y mae'r coleg wedi cyflawni ei ddibenion elusennol er budd cyhoeddus.

iii) Cynlluniau ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol / polisi cronfeydd wrth gefn

Rydym yn annog colegau i fod yn dryloyw yn eu cyfrifon a ddylai, lle y bo'n briodol, gynnwys cynlluniau ar gyfer recriwtio myfyrwyr, arbed costau ac effeithlonrwydd megis gwasanaethau a rennir a newid strwythurol.

Rydym hefyd yn annog colegau i adolygu eu polisi cronfeydd wrth gefn a lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan nodi, lle y bo'n briodol, sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â chynlluniau strategol ac, os ydyn yn elusen, â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau '[Cronfeydd wrth gefn elusennau: meithrin cydnerthedd](#)'.

iv) Niferoedd a chostau staff

Rhaid i golegau ddatgelu yn y nodiadau ar y cyfrifon niferoedd cyfartalog y staff a gyflogwyd gan y coleg yn y flwyddyn, wedi'u categoreiddio yn ôl rôl. Mae'r datgeliad hwn yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 adran 411. Rhaid i'r ffigyrau fod y cyfrif pennau cyfartalog ar gyfer pob categori, wedi'i gyfrifo ar sail fisol.

Rhaid i'r nodiadau hefyd ddatgelu cyfanswm costau staff y coleg mewn perthynas â'r flwyddyn, wedi'u rhannu rhwng:

- cyflogau a dalwyd neu a oedd yn daladwy i aelodau o staff
- costau nawdd cymdeithasol a ysgwyddwyd gan y coleg ar eu rhan
- costau pensiwn

v) Cydnabyddiaeth ariannol personél rheoli allweddol a staff y telir cyflog uchel iddynt

Yn ogystal â'r gofynion datgelu a nodir yn y [SORP AB ac AU](#) perthnasol, rhaid i golegau ddatgelu'r canlynol yn y nodiadau ar y cyfrifon:

Personél rheoli allweddol

Er mwyn atebolrwydd cyhoeddus, mae'n ofynnol i sefydliadau ddatgelu'r canlynol yn y nodyn ar gostau staff yn eu datganiadau ariannol archwiliedig:

- a) enillion cyfanredol a gafodd personél rheoli allweddol, wedi'u rhannu yn ôl y math o enillion, gan gynnwys a heb gynnwys cyfraniadau pensiwn
- b) enillion cyfanredol a oedd yn ddyledus i bersonél rheoli allweddol, ond a hepgorwyd
- c) cyfiawnhad dros gyfanswm yr enillion sy'n gysylltiedig â gwerth a'r perfformiad a gyflawnwyd, ochr yn ochr ag eglurhad o'r prosesau a fabwysiadwyd i farnu perfformiad a chyfanswm enillion, gan gynnwys meincnodi neu ddulliau eraill o gymharu â'r farchnad ehangach

Lle mae personél rheoli allweddol blaenorol yn parhau i gael enillion mewn rôl gyflogedig neu ymgynghoriaeth, megis mewn rôl ymgynghorol neu sabothol, rhaid datgelu hyn, gydag eglurhad. I osgoi amheuaeth, lle mae uwch arweinydd, mewn amgylchiadau eithriadol, yn cael eu penodi ar sail fyrdymor ac yn peidio â chael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y coleg ei hun, rhaid datgelu eu henillion hefyd.

Swyddog cyfrifyddu

Rhaid i golegau ddatgelu enillion y swyddog cyfrifyddu (a'r aelod o bersonél rheoli allweddol y telir y cyflog uchaf iddynt os nad y swyddog cyfrifyddu yw'r aelod hwn, sy'n annhebygol) ar wahân, gan gynnwys a heb gynnwys cyfraniadau pensiwn. Rhaid i golegau rannu'r datgeliad hwn yn ôl mathau o enillion (gweler (e) isod) yn eu cyfrifon. Rhaid i daliadau diswyddo ac iawndal am golli swydd a dalwyd i'r swyddog cyfrifyddu ac, os yw'n wahanol, yr aelod o bersonél rheoli allweddol y telir y cyflog uchaf iddynt, gael eu datgelu ar wahân hefyd.

Rhaid datgelu cyfiawnhad dros gyfanswm enillion y swyddog cyfrifyddu, sy'n gysylltiedig â gwerth a'r perfformiad a gyflawnwyd, ochr yn ochr ag eglurhad o'r prosesau a fabwysiadwyd i farnu perfformiad a chyfanswm enillion, gan gynnwys meincnodi neu ddulliau eraill o gymharu â'r farchnad ehangach.

Lle bu mwy nag un swyddog cyfrifyddu yn ystod y cyfnod, rhaid i enillion pob un gael eu datgelu ar wahân, ynghyd â'u dyddiadau dechrau a gorffen.

Lle mae swyddog cyfrifyddu blaenorol yn parhau i gael enillion mewn rôl gyflogedig neu ymgynghoriaeth, megis mewn rôl ymgynghorol neu sabothol, rhaid datgelu hyn, gydag eglurhad.

Lle mae swyddog cyfrifyddu'r coleg yn cael ei gyflogi gan neu'n cael cydnabyddiaeth ariannol uniongyrchol gan sefydliad arall, megis sefydliad addysg uwch, yna rhaid i'r coleg ddal i ddatgelu yn ei ddatganiadau ariannol ac yn y Cofnod Cyllid pa enillion a gafodd y person hwnnw fel swyddog cyfrifyddu'r coleg a darparu nodyn esboniadol.

Lluosrif cyflog

Rhaid i golegau ddatgelu'r berthynas rhwng enillion y swyddog cyfrifyddu (neu rai'r aelod o bersonél rheoli allweddol y telir y cyflog uchaf iddynt, os nad y swyddog cyfrifyddu yw'r aelod hwn) ac enillion yr holl gyflogeion eraill fel lluosrif cyflog, a fynegir fel a ganlyn:

- a) cyflog sylfaenol y swyddog cyfrifyddu wedi'i rannu â chyflog canolrifol holl gyflogeion eraill y coleg (ar sail gyfwerth ag amser llawn i gyd); a
- b) cyfanswm enillion y swyddog cyfrifyddu wedi'i rannu â chyflog canolrifol holl gyflogeion eraill y coleg (ar sail gyfwerth ag amser llawn i gyd)

Rhaid i'r coleg roi eglurhad byr o'r sail ar gyfer eu methodoleg ac unrhyw eithriadau a gymhwyswyd, megis gweithwyr asiantaeth.

Staff y telir cyflog uwch iddynt

Rhaid i golegau ddatgelu nifer y staff y telir cyflog uwch iddynt y mae'r enillion a gawsant yn ystod y flwyddyn (heb gynnwys unrhyw gostau pensiwn cyflogwr) yn perthyn i bob band o £5,000 o fan cychwyn o £60,000. Os cafodd aelod o staff rhan-amser lai na £60,000 yn ystod y flwyddyn ond y byddai wedi cael o leiaf £60,000 ar sail amser llawn, dylid nodi hyn fel datgeliad naratif yn y nodyn.

Diffiniadau ar gyfer niferoedd a chostau staff

Mae'r mathau o enillion yn cynnwys:

- a) cyflog sylfaenol
- b) ffioedd
- c) tâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad a bonysau eraill, gan gynnwys unrhyw drefniadau taliadau gohiriedig a datgeliad ar wahân ar gyfer unrhyw symiau a hepgorwyd
- d) lwfansau treuliau (i'r graddau y gellir codi treth incwm y DU arnynt)
- e) cyfraniadau pensiwn
- f) taliadau yn lle cyfraniadau pensiwn
- g) unrhyw symiau a dalwyd dan unrhyw gynllun pensiwn mewn perthynas â chyflogaeth gyda'r coleg
- h) gwerth ariannol unrhyw fuddion trethadwy nad oeddent mewn arian parod (er enghraifft, ceir cwmni, llety a benthyciadau â chymhorthdal)
- i) buddion cyflogeion a ddarparwyd gan y coleg neu ar ei ran
- j) unrhyw fath arall o enillion a chost i'r coleg am ddarparu pob math, er enghraifft colli buddion, taliadau ex-gratia, ymgynghoriaeth, asiantaeth, derbyn swydd ('tâl ymuno'), costau adleoli a difidendau neu daliadau 'oddi ar y gyflogres'
- k) gwerth ariannol unrhyw fuddion annhrethadwy sydd ar gael dim ond i bersonél rheoli allweddol neu staff y telir cyflog uwch iddynt
- l) unrhyw un neu rai o'r uchod a ddarparwyd gan unrhyw is-gwmnïau, mentrau ar y cyd neu endidau cysylltiedig eraill

Nid yw enillion yn cynnwys:

- a) addasiadau sy'n codi o FRS 102 (adran 28) oni bai eu bod wedi'u cynnwys fel arall yn y nodyn costau staff
- b) cyfraniadau yswiriant gwladol (NICs) cyflogwr
- c) iawndal am golli swydd
- d) trefniadau aberthu cyflog

Serch hynny, rhaid i golegau ddatgelu unrhyw drefniadau aberthu cyflog ar wahân neu, os nad oes trefniadau o'r fath, rhaid iddynt gynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw.

Staff adrannol dysgu ac addysgu

Diffinnir yr aelodau hyn o staff fel y rhai y mae eu prif gyfrifoldeb cytundebol yn ymwneud â dysgu neu addysgu, a/neu sy'n treulio o leiaf 10% o'u hamser mewn gweithgaredd dysgu neu addysgu. Gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill hefyd, gan gynnwys trefnu a rheolaeth llinell (e.e. Pennaeth Adran a.y.b.).

vi) Iawndal am golli swyddGofynion datgelu

Rhaid i golegau ddatgelu manylion unrhyw iawndal am golli swydd, colli unrhyw swydd arall sy'n gysylltiedig â materion y coleg a/neu'n gysylltiedig â materion rhiant-fenter neu is-fenter i'r coleg; lle cafodd ei dalu neu lle'r oedd yn daladwy i'r swyddog cyfrifyddu, personél rheoli allweddol (blaenorol a phresennol) a staff sy'n ennill o leiaf £60,000 y flwyddyn. Rhaid i golegau ddatgelu:

- a) gwerth cyfanredol unrhyw iawndal am golli swydd a dalwyd neu a oedd yn daladwy i'r aelodau hyn o staff (heb gynnwys taliadau yn lle rhybudd)
- b) nifer y bobl y talwyd hwn neu yr oedd yn daladwy iddynt
- c) natur unrhyw fuddion nad oeddent mewn arian parod

Mae iawndal am golli swydd yn cynnwys:

- a) gwerth ariannol amcangyfrifedig buddion nad oeddent mewn arian parod
- b) iawndal yn gydnabyddiaeth am, neu mewn cysylltiad ag, ymddeol
- c) unrhyw dâl atodol neu ychwanegiad at y cynllun pensiwn

Os yw unrhyw daliadau o'r fath yn cynnwys elfennau anstatudol/ anghytundebol, rhaid datgelu'r rhain fel rhan o'r datgeliad am daliadau diswyddo.

Taliadau diswyddo

Mae taliadau diswyddo'n cynnwys taliad cytundebol, taliadau statudol a thaliadau diswyddo arbennig i staff. Mae taliadau diswyddo arbennig i staff yn golygu symiau a delir i gyflogeion y tu allan i ofynion statudol a chytundebol.

Mae'n ofynnol i golegau ddatgelu:

- a) yr holl gostau diswyddo, wedi'u rhannu rhwng taliadau cytundebol ac anghytundebol
- b) taliadau diswyddo arbennig i staff – symiau y tu allan i ofynion statudol a chytundebol beth bynnag fo'u gwerth
- c) pa un a gymeradwywyd y rhain gan y Bwrdd neu bwyllgor a sefydlwyd gan y coleg at y diben hwn.

Rhaid i golegau/grwpiau colegau ddatgelu'r holl daliadau diswyddo a wnaed gan y coleg/grŵp colegau yn ystod cyfnod y datganiadau ariannol, yn y bandiau isod:

Enghraifft: Fe wnaeth y coleg/grŵp colegau 5 taliad diswyddo yn y flwyddyn, a ddatgelir yn y bandiau canlynol:

Swm y taliad diswyddo	Nifer y taliadau a wnaed
£0 - £25,000	4
£25,001 - £50,000	1
£50,000 - £100,000	0
£100,001 - £150,000	0
£150,000 +	0

Rhaid i golegau / grwpiau colegau hefyd ddatgelu gwerth unigol yr holl daliadau diswyddo arbennig i staff (sef symiau a dalwyd i gyflogaeion y tu allan i ofynion statudol a chytundebol) a wnaed gan y coleg / grŵp colegau yn ystod cyfnod y datganiadau ariannol. Rhaid gwneud hyn beth bynnag fo'r gwerth (a hyd yn oed pan mai'r taliadau hyn yw'r (pan ydynt yn rhan o'r) taliad a gynhwyswyd yn y nodyn uchod).

Nid oes angen datgelu enwau'r derbynyddion. Mae datgeliad enghreifftiol wedi'i gynnwys isod, gan nodi nad yw'r symiau wedi'u talgrynnu. Nid yw'n ofynnol cynnwys nodyn os na chododd unrhyw drafodiadau.

Wedi'u cynnwys mewn costau ailstrwythuro staff mae taliadau diswyddo arbennig sy'n gyfanswm o £15,000 (2023: £dim). Yn unigol, y taliadau oedd: £1,000, £4,000, £4,000 a £6,000.

vii) Trafodiadau gyda llywodraethwyr / ymddiriedolwyr

Rhaid datgelu'r holl drafodiadau gyda llywodraethwyr. Mae hyn yn cynnwys ad-daliadau arferol ar gyfer treuliau teithio neu gostau tebyg a ysgwyddwyd mewn cysylltiad â'u dyletswyddau fel llywodraethwr, megis costau gofal plant a ysgwyddwyd i fynychu cyfarfodydd y coleg. Fodd bynnag, mae awdurdod ychwanegol yn ofynnol ar gyfer digolledu am golli enillion a chyn gwneud taliad o'r fath, rhaid i'r coleg:

- bod wedi'i argyhoeddi nad oes elfen sy'n gydnabyddiaeth ariannol
- os oes elfen sy'n gydnabyddiaeth ariannol, cael caniatâd datganedig gan y Comisiwn Elusennau
- rhoi sylw dyladwy i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau '[Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr](#)'

Rhaid i golegau ddatgelu manylion unrhyw daliadau o'r fath a wnaed (gan gynnwys cyfanswm taliadau o'r fath a nifer y llywodraethwyr/yr ymddiriedolwyr a gafodd y taliadau), neu os nad oes rhai, rhaid cynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw.

viii) Trafodiadau partïon cysylltiedig

Rhaid i golegau ddilyn gofynion FRS102 a'r [SORP AB ac AU](#) ar gyfer datgelu eu trafodiadau a balansau gyda phartïon cysylltiedig.

Lle na fu unrhyw drafodiadau partïon cysylltiedig o gwbl rhaid i'r holl golegau wneud datganiad i'r perwyl hwn.

Caiff paragraff 25.5 y [SORP AB ac AU](#), sy'n deillio o'r eithriad ym mharagraff 33.1A FRS 102 ar gyfer adrodd ar drafodiadau a balansau gyda phartïon cysylltiedig rhwng dau aelod neu fwy o'r un grŵp yn achos is-gwmnïau a berchnogir yn llwyr, ei anwybyddu.

Lle mae'r coleg yn rhan o grŵp, rhaid adrodd ar yr holl drafodiadau a balansau o fewn y grŵp, gan gynnwys y rhai gydag:

- a) unrhyw is-gwmnïau a berchnogir yn llwyr a all fod gan y coleg,
- b) unrhyw gyd-is-gwmnïau mewn strwythur grŵp y mae'r coleg ei hun yn is-gwmni ynddo, ac
- c) unrhyw riant-endid a allai fod gan y coleg, megis sefydliad addysg uwch.

ix) Cyfrifyddu ar gyfer grantiau'r Llywodraeth

Yn ychwanegol at y gofynion datgelu a nodir yn y [SORP AB ac AU](#), rhaid i golegau ddatgelu'r canlynol yn y nodiadau ar y cyfrifon:

- a) incwm gohiriedig sy'n gysylltiedig â grantiau'r Llywodraeth fel eitemau ar wahân, sy'n wahanol i groniadau eraill ac incwm gohiriedig arall, wedi'i rannu rhwng llai a mwy nag un flwyddyn
- b) yr incwm a gydnabyddir mewn unrhyw gyfnod sy'n gysylltiedig â grantiau'r Llywodraeth fel eitemau ar wahân mewn dadansoddiad o incwm o grantiau cyrff cyllido

Ym mhob achos, rhaid i golegau wahaniaethu incwm gohiriedig sy'n gysylltiedig â grantiau'r Llywodraeth rhwng symiau sy'n gysylltiedig â grantiau cyfalaf a refeniw.

x) Incwm consortiwm

Ceir nifer cynyddol o drefniadau consortiwm, er enghraifft lle mae colegau'n ddarparwyr arweiniol mewn consortia Dysgu Seiliedig ar Waith. Os yw'r sefydliad yn gweithredu fel y darparwr arweiniol yn y consortiwm, dim ond yr incwm a enillwyd ganddo ef ei hun y dylai ei gynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant, nid yr incwm a drosglwyddwyd i aelodau eraill y consortiwm. Bydd nodyn ychwanegol dan y nodyn ar grantiau cynghorau cyllido'n ofynnol i fanylu ar incwm consortiwm fel a ganlyn:

'Mae'r sefydliad yn bartner arweiniol mewn consortiwm i ddarparu xxxx. Enillir yr incwm sydd wedi'i gynnwys yn y cyfrifon hyn gan y sefydliad yn ei gymhwyster fel darparwr a phartner arweiniol y consortiwm. Mae'r holl incwm arall sy'n gysylltiedig â'r consortiwm ac yn daladwy i aelodau'r consortiwm wedi cael ei hepgor o'r cyfrifon. Roedd cyfanswm yr incwm a hawliwyd yn y flwyddyn a'r taliadau cysylltiedig i bartneriaid fel a ganlyn:

Cyfanswm incwm	x
Taliadau i bartneriaid AB	x
Taliadau i bartneriaid eraill	x
Incwm net	x

Lle nad oes trefniant consortiwm, ond mai'r sefydliad yw'r darparwr arweiniol mewn contract Dysgu Seiliedig ar Waith, yna dylid cofnodi cyfanswm yr incwm yn y cyfrif incwm a gwariant; fodd bynnag, dylid cynnwys y swm a dalwyd i ddarparwyr eraill fel isgontractwyr mewn nodyn ar y cyfrifon fel uchod.

xi) Adolygiad ariannol y coleg

Mae'r [SORP AB ac AU](#) yn ei gwneud yn ofynnol datgelu adroddiad strategol teg a chytbwys ar ddatblygiad, perfformiad a sefyllfa'r coleg. Gall yr adroddiad hwn ddwyn y teitl adroddiad strategol, adroddiad ariannol, adroddiad yr aelodau ac ati. Fodd bynnag, beth bynnag fo'i deitl, dylid llunio'r adroddiad hwn yn unol â'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 3.23 i 3.26 yn y [SORP AB ac AU](#); sef y dylai fod â ffocws ar ddefnyddwyr, yn gyson â'r datganiadau ariannol a'u hategu, yn gynhwysfawr, yn ddealladwy ac yn gytbwys.

Fel arfer gorau, dylai'r adolygiad ariannol yn yr adroddiad hwn:

- egluo effaith ariannol digwyddiadau arwyddocaol ar berfformiad ariannol a sefyllfa ariannol y coleg
- egluo sefyllfa ariannol gyffredinol y coleg ar y dyddiad adrodd gyda naratif sy'n darparu cyd-destun y rhifau, a mewnwelediad i'r rhifau, yn y datganiadau ariannol, gan ganolbwyntio ar falansau perthnasol neu arwyddocaol
- adnabod unrhyw is-fenter neu fenter ar y cyd sy'n berthnasol mewn diffyg, gan egluro'r amgylchiadau a arweiniodd at y diffyg a'r camau sy'n cael eu cymryd i ymdrin ag ef
- egluo perfformiad ariannol y coleg yn y flwyddyn, gan gynnwys eglurhad o achosion balans incwm/(gwariant) net y coleg ar gyfer y flwyddyn
- disgrifio prif ffynonellau cyllid y coleg
- bod wedi ei ysgrifennu mewn geiriau y byddai rhywun nad yw'n gyfrifydd yn eu deall

xii) Datgeliadau mewn perthynas â chynlluniau pensiwn**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)¹****Taliadau i ariannu diffyg yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Rhaid i golegau nodi gofynion FRS102 mewn perthynas â datgeliadau ynglŷn â chynlluniau pensiwn buddion diffiniedig, megis y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn arbennig, bod paragraff 28.41(a) yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys disgrifiad cyffredinol o'r math o gynllun, y mae'n rhaid iddo gynnwys polisi cyllido'r coleg. Rydym yn tynnu sylw at y rhwymedigaeth i golegau ddatgelu swm ac amseriad taliadau sydd i'w gwneud yn y dyfodol gan yr endid dan unrhyw gytundeb gyda'r cynllun buddion diffiniedig i ariannu diffyg.

Cydnabod gwarged cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel ased

Er mai'r norm am rai blynyddoedd fu bod colegau wedi bod yn adrodd ar ddiffyg yng ngwerth eu cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn fwy diweddar mae amodau'r farchnad wedi golygu bod rhai colegau wedi cael eu hysbysu gan y cynllun perthnasol bod eu cronfa wedi symud i mewn i sefyllfa o warged. Dylai colegau yn y sefyllfa hon ystyried darpariaethau paragraff 28.22 FRS 102 a nodi'r amgylchiadau cyfyngedig sy'n caniatáu cydnabod unrhyw warged o'r fath fel ased: pa un a yw'n gallu adfer y gwarged naill ai trwy gyfraniadau is yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun. Ar ôl ystyried yr amgylchiadau a llunio ei gasgliad, dylai'r coleg ystyried:

- a) datgelu yn nodyn 1 ar y polisïau cyfrifyddu, fel rhan o'i feysydd dyfarnu critigol, y sail ar gyfer ei gasgliad ynghylch cydnabyddiaeth, a
- b) cynnwys eglurhad yn yr adran ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o'r nodyn ar gronfeydd pensiwn sy'n dynodi i ba raddau y mae/nad yw unrhyw warged yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol fel ased pensiwn, gan gynnwys ble y cyfyngwyd ar werth yr ased net.

Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)

Mae Actiwari Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun Pensiwn Athrawon bob 4 blynedd. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod costau'r cynllun yn cael eu cydnabod a'u rheoli'n briodol a bod yr adolygiad yn nodi lefel cyfraniadau yn y dyfodol.

O ganlyniad i'r prisiad diwethaf o'r cynllun, yn seiliedig ar ddata 2020, cafodd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr eu cynyddu ym mis Ebrill 2024 o gyfradd o 23.6% i 28.68% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn talu tâl sy'n gyfwerth â 0.08% o gostau cyflog pensiynadwy i dalu treuliau gweinyddu.

Ceir copi o'r adroddiad prisio ar wefan y [Pensiwn Athrawon](#).

Disgwylir i'r prisiad nesaf, yn seiliedig ar ddata 2024, ddod i rym yn 2027.

¹ Mae Bwrdd Cyngori'r Cynllun, ynghyd â Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW), wedi cyhoeddi [Dogfen hysbysu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol](#) y gellir ei gweld trwy ddilyn y ddolen. Mae'r ddogfen yn egluro'r llinell amser a'r llif gwybodaeth ar gyfer y prisiad teirblynyddol ac at ddibenion cyfrifyddu / archwilio.

xiii) Adrodd amgylcheddol

Dylai colegau gynnwys sylwebaeth ar y camau a gymerwyd ac sydd yn yr arfaeth i sicrhau cynaliadwyedd ehangach adnoddau cymdeithasol ac amgylcheddol. Gall hyn gynnwys, ymhlith mathau eraill o sylwebaeth, ddatganiad o darged sero net y coleg (lle mae hwn wedi cael ei ddatgan yn gyhoeddus) a'i gynnydd tuag at gyrraedd hwn. Gallai meysydd i'w hystyried gynnwys gwelliannau i effeithlonrwydd ystadau, defnydd o ynni, lleihau gwastraff i'r eithaf, effeithlonrwydd adnoddau, defnydd o ddŵr, caffael, bioamrywiaeth, teithio a lleihau effeithiau amgylcheddol eraill. Rydym yn cyfeirio sefydliadau at [Ganllawiau Llywodraeth Cymru](#) yn y maes hwn, sy'n adnabod trefn blaenoriaeth yn seiliedig ar ddosbarthu allyriadau uniongyrchol (cwmpas 1), allyriadau anuniongyrchol (cwmpasau 2 a 3), Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth a'r [Fframwaith Allyriadau Carbon Safonedig \(SCEF\) ar gyfer addysg bellach ac uwch a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd](#). Cyhoeddodd ESFA ganllawiau ar [adroddiadau wedi'u symleiddio ar ynni a charbon ar gyfer colegau](#), sy'n cynnwys nodyn datgelu enghreifftiol sy'n berthnasol i'r sector.

xiv) Y gronfa ariannol wrth gefn

Rhaid i golegau wneud datgeliad yn eu datganiadau ariannol ynglŷn â'r cronfeydd ariannol wrth gefn y maent wedi'u dosbarthu yn unol â'r datgeliad enghreifftiol isod:

'Mae'r sefydliad yn gweithredu fel asiant talu i weinyddu a dosbarthu rhai cronfeydd ariannol wrth gefn sydd ar gael dim ond i ddysgwyr. Felly nid yw'r grantiau a'r taliadau cysylltiedig a ddangosir isod wedi'u cynnwys yn y datganiad o incwm cynhwysfawr:

	2025	2024
	£'000	£'000
Grantiau a gafwyd	x	x
Grantiau a dalwyd i fyfyrwyr	x	x
Costau gweinyddu	x	x
Grantiau a ddygwyd ymlaen	x	x
Wedi'u had-dalu i Medr	x	x
Grantiau a gariwyd ymlaen	x	x

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government